

Gweithrediadau Cwmpo Coed: Cwestiynau Cyffredin

Phytophthora Ramorum

Beth yw *Phytophthora ramorum*?

Mae *Phytophthora ramorum* (clefyd y llarwydd) yn organeb debyg i alga o'r enw llwydni dŵr. Mae'n achosi difrod helaeth a marwolaeth i fwy na 150 o rywogaethau o goed a phlanhigion.

Mae *Phytophthora ramorum* yn effeithio'n wael ar goed llarwydd.

Yn ôl y ffigurau yn 2021, mae dros 4000 o safleoedd wedi eu harolygu a mae dros 14,400ha o goed llarwydd wedi eu heffeithio gan y clefyd heintus, ar draws ardaloedd o dir preifat a chyhoeddus.

Mae'r [fideo byr](#) hwn yn egluro mwy.

Ai dim ond coed llarwydd sy'n cael eu heffeithio?

Na, mae *Phytophthora ramorum* hefyd wedi'i ddarganfod mewn coed castanwydd pêr (*Castanea sativa*) mewn nifer o leoliadau yn ne a chanol Lloegr. Yn UDA, fe'i gelwir yn 'glwyf marwol sydyn y derw'. Fodd bynnag, nid yw ffurfiau genetig yr organeb a geir yn y DU wedi cael fawr o effaith ar ein dwy rywogaeth dderw frodorol, sef y dderwen goesog (*Quercus robur*) a'r dderwen ddi-goes (*Quercus petraea*).

Yn ogystal â choed llarwydd, sydd wedi cael eu heffeithio'n arbennig gan *Phytophthora ramorum*, gall rhywogaethau conwydd eraill fel ffynidwydden Douglas (*Pseudotsuga menziesii*), y ffynidwydden fawr (*Abies grandis*), y ffynidwydden urddasol (*Abies procera*), a sbriwsen-hemlog y Gorllewin (*Tsuga heterophylla*) gael eu heintio pan fônt yn tyfu ger llarwydd heintiedig.

Sut ydych chi'n profi am y clefyd?

Rydym yn ymgymryd ag arolygon a hediadau iechyd planhigion o'r awyr yn rheolaidd. Maent wedi nodi ardaloedd sylweddol lle ceir achosion o glefyd y llarwydd ar draws Cymru. Unwaith y maent wedi'u nodi, mae ein Timau Iechyd Coed yn gweithio gyda Forest Research i gasglu samplau a chadarnhau presenoldeb yr haint ar lawr gwlad.

Gwywo mewn canghennau unigol a brigdyfiant yw'r symptomau cyntaf a welir fel arfer, gan ymledu trwy'r brigdyfiant ac i'r coesau wrth i'r afiechyd ledaenu. Mae'r symptomau ar y rhisgl yn cynnwys resin yn gwaedu a briwiau. Gall resin sy'n gwaedu sychu i gramen wen ar y rhisgl. Mae'r rhisgl mewnol o dan y man sy'n gwaedu fel arfer yn afliwiedig ac yn marw.

Mae coed yn marw pan fo'r briwiau'n lledu'n helaeth ar y prif foncyff. Gall egin a deiliant gael eu heffeithio hefyd. Bydd gan egin a deiliant heintiedig flaenau sydd wedi gwywo â nodwyddau du. Mae'r egin heintiedig yn gollwng eu nodwyddau yn rhy gynnar.

Sut y gwnaeth y coed ddal y clefyd?

Darganfuwyd *Phytophthora ramorum* yn gyntaf yn y DU yn 2002 ar blanhigyn *Viburnum* a fewnforiwyd. Gall ledaenu'n naturiol mewn glaw wedi'i chwythu gan y gwynt (hyd at bedair milltir) ond y fasnach blanhigion a ledaenodd yr afiechyd hwn ledled y byd.

Cyn effaith eang *Phytophthora ramorum* ar goed llarwydd, roedd oddeutu 154,000 hectar o goed llarwydd wedi'u plannu ym Mhrydain Fawr, 5% o gyfanswm arwynebedd y coetir. Collwyd y rhan fwyaf o hyn ac ni ellir plannu llarwydd ar gyfer pren mwyach.

Yng Nghymru, mae twf llarwydd yn anwastad. Mae'n rhywogaeth ddominyddol yn y de, lle cafodd ei phlannu yn wreiddiol i gyflenwi'r diwydiant mwyngloddio. Roedd tua 20% o'r cnydau yn ne Cymru yn gnydau llarwydd ar ddechrau'r cyfnod y dechreuodd *Phytophthora ramorum* ymledu.

Beth fyddwch chi'n ei wneud ynglŷn ag adferiad naturiol llarwydd yn yr ardaloedd heintiedig hyn?

Mewn ardaloedd a gwmpwyd yn ddiweddar, gall llarwydd aildyfu'n naturiol oherwydd gall conau segur ddechrau tyfu o'r storfa bridd.

Mae Forest Research yn cynnal ymchwil ar hyn o bryd ar effaith *Phytophthora ramorum* ar lasbrennau a bydd y gweithdrefnau rheoli gorau o hyn yn cael eu cyhoeddi yn y dyfodol.

Bydd Timau Iechyd Coed yn parhau i gynnal eu harolygon hofrennydd bob blwyddyn i fonitro coetiroedd ledled Cymru, ac os bydd clystyrau naturiol newydd wedi'u hadfywio yn cael eu nodi trwy'r arolygon awyr hyn, bydd arolygon safle pellach yn cael eu cynnal a'u profi yn unol â hynny.

Ni fydd Cyfoeth Naturiol Cymru yn plannu unrhyw goed llarwydd newydd ar [Ystad Goetir Llywodraeth Cymru \(YGLIC\)](#)

A yw clefyd y llarwydd yn beryglus i bobl, cŵn a bywyd gwylt?

Nac ydy, nid yw clefyd y llarwydd ond yn effeithio ar goed a phlanhigion.

Mynd i'r afael â choed llarwydd heintiedig

A oes rhaid eu torri? Onid oes ffordd o drin y clefyd?

Mae torri coed (neu eu 'cwmpo') yn atal lledaeniad y clefyd. Os na chaiff y coed heintiedig eu torri, gallai'r clefyd fwtanu a heintio rhywogaethau eraill yn yr ardal, ac ni fyddem yn gallu rheoli lledaeniad y clefyd.

Dinistrio'r goeden yw'r ffordd orau o arafu lledaeniad y clefyd. Hyd yn hyn, ni ddatblygwyd dull effeithiol ar gyfer trin y clefyd.

Pa mor fawr yw'r ardal y mae'n rhaid ichi ei chwmpo?

Yn ôl y gyfraith, mae'n rhaid i CNC a thirfeddianwyr preifat waredu'r holl goed llarwydd sy'n destun [Hysbysiad Iechyd Planhigion Statudol \(HIPS\)](#) gan Lywodraeth Cymru. Bydd maint yr ardal yn dibynnu ar yr hyn sydd wedi'i gwmpasu gan yr HIPS.

Mae'n bwysig nodi bod lledaeniad y clefyd o 2010 wedi newid o flwyddyn i flwyddyn, yn dibynnu ar y tywydd. Felly, mae Cyfoeth Naturiol Cymru yn ymgymryd â'r gwaith cynllunio ar gyfer gwaredu'r holl goed llarwydd o [Ystad Goetir Llywodraeth Cymru \(YGLIC\)](#) ledled Cymru.

Pa mor hir y bydd yr ymgyrch yn ei chymryd?

Mae Cyfoeth Naturiol Cymru a'i gorff blaenorol (Comisiwn Coedwigaeth Cymru) wedi bod yn gwaredu coed llarwydd ers 2010. O fewn rhanbarth y de-ddwyrain, gwaredir â'r rhan fwyaf o gnydau llarwydd erbyn 2025.

Mae hefyd gan [Ystad Goetir Llywodraeth Cymru \(YGLIC\)](#) nifer o goetiroedd lle mae angen gwneud cytundebau gyda pherchnogion tir preifat er mwyn cael mynediad i ymgymryd â'r gwaith cwmpo coed. Mae gwneud y trefniadau hyn yn cymryd amser a bydd angen adeiladu seilwaith weithiau er mwyn ymgymryd â'r gwaith. O ystyried hyn, gallai'r rhaglen gwaredu coed llarwydd bara am fwy o amser.

Beth yw'r amcangyfrif o'r amser ar gyfer gwaith yn 'The Wylie', Llanbradach a South West End?

Bydd Llanbradach a South West End yn cymryd oddeutu 9 mis, a bydd coetir 'The Wylie' yn cymryd oddeutu 18 mis i'w gwblhau.

Neilltuwyd mwy o amser i gwblhau coetir 'The Wylie' gan fod y llannerch hon ar dir serth. Mae hyn yn golygu na ellir defnyddio technegau cynaeafu confensiynol. Yn hytrach, rhaid i'r coed gael eu cwmpo â llaw a'u winsio fesul un i fyny'r llethr fel y gellir eu prosesu'n ddiogel mewn ardal brosesu. Mae'r amser a gymerir i gwblhau gwaith o'r fath yn hirach o lawer, a gall newid gan ddibynnu ar ba mor serth yw'r llethr, ansawdd y pren, a maint a hyd y tynnu.

Amcangyfrif yn unig yw'r amserlenni hyn, oherwydd mae yna lu o ffactorau a all newid hyd yr amser cynaeafu. Gall y ffactorau hyn gynnwys peiriannau'n torri i lawr a phroblemau gweithredol, adar yn nythu, neu oedi wrth symud y coed oddi ar y safle. I gael y diweddaraf am y rhaglen waith, anfonwch e-bost atom SEForest.operations@cyfoethnaturiol.cymru

Gweithio'n agos i gymunedau

A fydd angen ichi gau'r mynediad i'r goedwig yn ystod y gwaith cwmpo coed?

Rydym yn deall faint mae pobl yn gwerthfawrogi eu coetir lleol ac mae cau coetir cyfan bob amser yn ddewis olaf. Mae'r buddion iechyd a lles sy'n gysylltiedig â bod allan mewn coetiroedd yn hysbys iawn ac mae'n rhan o [Strategaeth Coetiroedd i Gymru Llywodraeth Cymru](#).

Yn ystod gweithrediadau coedwig, byddwn yn ymdrechu i gadw cymaint o lwybrau, llwybrau troed a ffyrdd coedwig ar agor i'r cyhoedd â phosibl. Fodd bynnag, nid yw hyn bob amser yn bosibl a cheir adegau pan fydd yn rhaid cau rhannau o'r coetir i sicrhau diogelwch defnyddwyr y goedwig a'n gweithredwyr coedwig.

Gall yr ardaloedd sydd ar gau yn aml deimlo ychydig yn ormodol i'r cyhoedd, ond mae rheswm da dros hyn. Mae materion diogelwch sylweddol sy'n gysylltiedig â [pheiriannau cynaeafu mecanyddol](#) a all arwain at anaf neu farwolaeth hyd yn oed ar gyfer gweithredwyr y peiriannau a phobl gerllaw.

Cadwch at yr arwyddion sy'n gysylltiedig â gweithgareddau cynaeafu gan eu bod yno er eich diogelwch eich hun.

Rwy'n defnyddio'r coetir hwn bob dydd, pam na allaf barhau i'w ddefnyddio pan wyf yn gwybod nad yw'r contractwyr yn gweithio yno?

Nid yw'n hawdd gwybod bob tro pryd mae gwaith cynaeafu yn digwydd. Hyd yn oed pan nad yw'r peiriannau cynaeafu'n gweithio, gall fod gweithgareddau gweithredol eraill yn digwydd yn y coetir. Mae gan y gweithgareddau hyn beryglon yn gysylltiedig â nhw hefyd. Gall peiriannau dorri i lawr hefyd a gallant fod yn aros am ddarnau, sy'n golygu y gallai coed gael eu gadael yn sefyll mewn modd anniogel. Os yw safle ar gau i aelodau'r cyhoedd, mae ar gau er eu diogelwch eu hunain.

Am faint o'r gloch fydd y gwaith yn cael ei gynnal yn ystod y dydd, a sawl diwrnod yn ystod yr wythnos?

Mae hyn yn dibynnu ar y safle a pha mor agos y mae i gymunedau lleol. Yn gyffredinol, bydd gwaith yn cael ei gynnal yn ystod oriau gwaith arferol (dim gwaith gyda pheiriannau cynaeafu rhwng 7.00pm – 8.00am; dim cludo rhwng 6.00pm-6.00am). Os nad yw'r safle'n agos i

gymunedau lleol, gellir ymestyn yr oriau. Mae'n rhaid cymeradwyo gwaith ar wyliau banc ac ar y penwythnos, a phe bai'r safle'n agos i gymuned leol, ni fyddai cymeradwyaeth yn cael ei rhoi. Fodd bynnag, os bydd rhaid cau safleoedd, ni fydd unrhyw fynediad i'r cyhoedd ar unrhyw adeg (o fewn oriau gweithio a'r tu allan iddynt)

Pa beiriannau fyddwch chi'n eu defnyddio i dorri'r coed yn y coetir?

Yn dibynnu ar amodau'r safle, bydd contractwyr yn dewis y peiriannau gorau posibl i gael y pren allan yn ddiogel. Unwaith y bydd y pren mewn llannerch (neu ardal goedwig) wedi'i werthu i brynwr, bydd Cyfoeth Naturiol Cymru yn cynnal cyfarfod cynllunio cyn cychwyn gyda'r prynwr i gytuno ar gynllun cwmpo coed a strategaeth tynnu coed. Ar y cam hwn, bydd Cyfoeth Naturiol Cymru yn sicrhau y cytunir ar holl delerau'r contract ac y cedwir atynt er budd y coetir a'r gymunedau cyfagos.

Rwy'n poeni am lefel y sŵn a fydd yn ystod y gwaith. Beth ydych yn mynd i'w wneud i leddfu hyn?

Asesir pob safle o ran pa mor agos y mae i gymunedau lleol cyn y cytunir ar oriau gweithredu. Mae'n rhaid i brynwr/contractwyr ddilyn rheolau penodol, megis amseroedd cychwyn a gorffen ar gyfer gweithio gyda pheiriannau a symud pren o gwmpas, i sicrhau cyn lleied o aflonyddwch â phosibl i gymunedau lleol.

Ble gallaf fynd am dro pan fydd y gweithrediadau coedwig yn cael eu cynnal?

Byddwn bob tro yn ailgyfeirio llwybrau a hawliau tramwy cyhoeddus lle y bo hynny'n bosibl. Fodd bynnag, ni ellir gwneud hyn bob tro ac, os yw hyn yn wir, bydd angen i chi ddod o hyd i drefniadau amgen ar gyfer mynd am dro a gweithgareddau eraill tra bydd y gweithrediadau'n cael eu cynnal.

Unwaith y bydd yr ardal cwmpo coed wedi'i chynllunio a'i chytuno, bydd Cyfoeth Naturiol Cymru yn monitro ac yn rheoli unrhyw Hawl Tramwy Cyhoeddus neu Lwybr Troed Cyhoeddus ar y safle.

Rydym yn gweithio'n agos gyda'r contractwyr ar y safle i agor llwybrau cyn gynted â phosibl. Mae ein hasesiadau lechyd a Diogelwch trwyadl yn sicrhau'r llwybr diogelwch addas gorau ar gyfer aelodau'r cyhoedd yn ogystal â chontractwyr sy'n gweithio ar y safle.

Weithiau, gallwn gadw llwybrau ar agor trwy oruchwylwyr sydd gan y contractwyr, sy'n cadw gwylidwriaeth mewn ardaloedd diogelwch allweddol o amgylch gweithrediadau coedwig a llwybrau cyhoeddus. Ni ellir gwneud hyn bob amser, a bydd pob safle'n cael ei reoli'n briodol ar gyfer amodau'r safle. Gofynnwn i chi bob amser gadw at arwyddion yn y safle, hyd yn oed pan na allwch weld na chlywed unrhyw beiriannau'n gweithio.

Sut byddwch yn symud y pren o'r goedwig?

Bydd y pren yn gadael y goedwig ar wagenni pren ar lwybr wedi'i bennu. Bydd y llwybr yn defnyddio priffyrdd cyhoeddus a bydd yn cael ei ddewis i sicrhau cyn lleied o aflonyddwch â phosibl i gymunedau lleol.

Mae nifer y lorïau'n dibynnu ar faint y llannerch a faint o bren a gynhyrchir, a gall hyn amrywio o safle i safle. Pan fo safle yn agos i gymuned leol, byddwn yn cyfyngu nifer y wagenni pren i uchafswm o wyth y diwrnod. Mewn ardaloedd adeiledig, bydd hefyd gyfyngiad pellach ar y gweithgaredd hwn i oriau'r tu allan i'r adegau prysuraf yn y bore a chyda'r nos.

Pam na ellir rhoi'r pren i bobl leol i'w ddefnyddio a'i gasglu eu hunain?

Mae'r pren yn ddeunydd heintiedig ac mae'n rhaid iddo fynd i felinau â thrwyddedau i'w brosesu.

A fydd y contractwyr cwmpo yn gadael y safle mewn cyflwr da ar ôl iddynt gwblhau'r gwaith cwmpo?

Mae CNC yn gweithio gyda Safon Coedwigaeth y DU (UKFS). Golyga hyn y bydd y safle'n cael ei adael mewn cyflwr diogel ac y bydd yr holl gamau adfer wedi'u cymryd (bydd hawliau tramwy cyhoeddus a llwybrau a ffyrdd y goedwig yn cael eu clirio a'u hadfer).

Yn ôl ei natur, mae cwmpo coed yn broses ddinistriol. Ni fydd y safle'n ddymunol yr olwg yn syth ar ôl y gwaith cwmpo. Fodd bynnag, ar ôl i'r tîm ailstocio ddechrau paratoi'r ddaear ar gyfer y gwaith plannu dilynol, byddwch yn dechrau gweld strwythur ac unffurfedd ar y safle wrth i'r tocion gael eu pentyrru mewn rhesi i ddatguddio'r ddaear cyn plannu.

Ble allaf i fynd i weld diweddariadau rheolaidd am y gwaith coedwig hwn?

Mae Cyfoeth Naturiol Cymru bob amser yma i ateb unrhyw ymholiadau sydd gennych ynglŷn â'r gweithrediadau coedwig sy'n digwydd o'ch cwmpas. Gallwch gysylltu â ni trwy ein [gwefan](#), neu trwy e-bost at SEForest.operations@cyfoethnaturiol.cymru

Fel arall, bydd Cyfoeth Naturiol Cymru yn diweddarau eich Cyngorwyr Lleol a'ch Cyngorau Cymunedol yn rheolaidd am y rhaglen waith sy'n digwydd o'ch cwmpas. Ewch i wefan eich Cyngor Lleol i ddarganfod mwy o fanylion am eich cynrychiolwyr lleol.

Pwy sy'n rheoli gweithrediadau coedwig y tu allan i dir Cyfoeth Naturiol Cymru?

Rhaid i bob tirfeddiannwr sy'n bwriadu ymgymryd ag unrhyw weithred cwmpo coed fod â Thrwydded Cwmpo Coed wedi'i rhoi gan Cyfoeth Naturiol Cymru. Mae'r thrwyddedau hyn yn mynd trwy asesiad trylwyr gan sicrhau bod eu cynllun gwaith, eu strategaeth ailstocio a'u gweithrediadau cwmpo coed yn cadw at Safon Goedwigaeth y DU.

Pa gamau fydd CNC yn eu cymryd i fynd i'r afael ag ymddygiad gwrthgymdeithasol ar y mynydd, yn enwedig beicio anghyfreithlon oddi-ar-y-ffordd, beiciau cwad a cherbydau 4x4, a thipio anghyfreithlon?

Mae ymddygiad gwrthgymdeithasol, fel beicio oddi-ar-y-ffordd, beiciau cwad, cerbydau 4x4 a thipio anghyfreithlon, yn faterion cymdeithasol sy'n effeithio ar ran helaeth o Dde Cymru a thu hwnt – nid rhywbeth sy'n effeithio ar amgylchedd y goedwig yn unig mohono. Bydd CNC yn parhau i geisio atal mynediad i'r goedwig ar gyfer gweithgareddau o'r fath, ond mae hi'n anodd iawn atal y defnyddwyr gwrthgymdeithasol hyn a pharhau i ganiatáu mynediad i bawb arall yr un pryd.

Credwn mai'r unig ffordd ymlaen yw gweithio gydag asiantaethau eraill i fynd i'r afael â'r materion hyn. Y brif asiantaeth dan sylw yw'r heddlu, sy'n meddu ar bwerau priodol i gymryd camau gorfodi. Rydym yn annog holl ddefnyddwyr y goedwig i roi gwybod i'r heddlu am gerbydau anghyfreithlon, oherwydd dim ond gyda grym tystiolaeth y gall yr heddlu weithredu. Bydd yr adroddiadau'n helpu i greu darlun o'r amser gorau i dargedu'r ardal gydag ymgyrch.

A wnaiff y trigolion roi gwybod i'r heddlu am bob achos trwy anfon e-bost at contact@gwent.pnn.police.uk, trwy ffonio 101 neu trwy ddefnyddio cyfrifon Facebook neu Twitter Heddlu Gwent. Hefyd, a wnewch chi anfon manylion eich adroddiad, ynghyd â chyfeirnod y drosedd, at CNC trwy e-bost offroadinggwent@cyfoethnaturiolcymru.gov.uk fel y gallwn gadw golwg ar y mater.

Gwarchod Bywyd Gwylt yn ystod Gweithrediadau Cwmpo Coed

Sut ydych chi'n diogelu bywyd gwylt yn ystod gwaith cwmpo coed?

Mae gwaith cwmpo coed mewn ardaloedd o goetir yn cymryd dwy flynedd i'w gynllunio cyn yr ymgymerir â'r gwaith. Mae hyn yn ein galluogi i sicrhau bod digon o amser i ymgymryd â'r holl arolygon ecolegol sydd eu hangen mewn perthynas â phlanhigion ac anifeiliaid, sydd yn cynnwys [rhywogaethau a warchodir gan Ewrop](#).

Cynhelir yr holl waith cwmpo coed yn unol â [Safon Goedwigaeth y DU](#), sy'n amlinellu arferion gorau wrth ddelio â nifer o'r rhywogaethau hyn. Mae gan Cyfoeth Naturiol Cymru ei bolisiau cadwraeth mewnol ei hun hefyd i warchod a lleihau unrhyw aflonyddwch i rywogaethau a geir yn ei goetiroedd ymhellach.

Pam mae gwaith cwmpo coed yn digwydd yn ystod tymor nythu adar?

Weithiau, mae'n angenrheidiol i weithrediadau barhau yn ystod tymor nythu adar (mis Chwefror i fis Awst). Gallai hyn fod oherwydd sawl rheswm, gan gynnwys hysbysiadau Iechyd Statudol, amodau safleoedd a mwy. Fodd bynnag, mae Cyfoeth Naturiol Cymru'n sicrhau ei fod yn cydymffurfio â'r holl ddeddfwriaeth a pholisi i warchod bywyd gwyllt yn ystod y gweithrediadau hyn.

Pan fydd hyn yn wir, cynhelir arolygon helaeth yn y coetir i nodi adar sydd o bosib yn nythu. Wedyn, rhoddir ardal dan waharddiad o gwmpas unrhyw nythod a nodwyd, a bydd ein gweithredwyr coedwigaeth yn gweithio o gwmpas yr ardaloedd hyn hyd nes y bydd yr adar wedi magu plu a gadael y nyth. Mae Cyfoeth Naturiol Cymru yn sicrhau bod yr holl ardaloedd â Rhywogaethau a Warchodir gan Ewrop yn cael eu gwarchod yn ystod ein gweithrediadau cwmpo coed. Rydym yn sicrhau bod arolygon safle yn cael eu cynnal cyn ac yn ystod unrhyw weithrediadau ar safle. Bydd ein syrfewyr yn rheoli'r contractwyr yn briodol os deuir o hyd i unrhyw adar sy'n nythu a chânt eu rhoi mewn parthau lle na chaniateir gwaith.

[Darllenwch fwy am gwmpo coed yn ystod tymor nythu adar](#)

Mae nodwedd treftadaeth yn y goedwig. A fydd y gwaith coedwigaeth yn effeithio ar y nodwedd hon?

Mae CNC yn sicrhau ei fod yn diogelu nodweddion treftadaeth sydd i'w cael ar ei safleoedd. Cyn mynd i'r afael ag unrhyw waith coedwigaeth, byddwn yn cynnal chwiliad desg mewn perthynas â'r holl nodweddion treftadaeth y gwyddys amdanynt o fewn yr ardal gwmpo, a hynny trwy ddefnyddio data gan [Cadw](#) a'r ymddiriedolaethau archaeolegol lleol. Yna, byddwn yn arolygu'r safle'n fanwl. Os oes nodweddion treftadaeth y gwyddys amdanynt i'w cael yn y llannerch, yna byddwn yn gosod llain glustogi o'u hamgylch a bydd y gweithredwr cwmpo'n trin y llecyn hwn fel 'ardal dan waharddiad'.

Hefyd, rydym yn cofnodi nodweddion treftadaeth anhysbys y down o hyd iddynt. Waliau terfyn, cloddiau daear ac ati yw'r rhain fel arfer. Rhoddwn wybodaeth am y rhain ar ein ffurflenni llennyrch gan fynd ati i greu map o leoliad yr holl nodweddion. Yna, yn ystod y gwaith cwmpo bydd y gweithredwr yn cadw'n glir o unrhyw ardaloedd dan waharddiad.

Er enghraifft, gwyddom fod nodweddion treftadaeth i'w cael o amgylch coetir 'The Wylie'. Mae treftadaeth y coetir hwn yn eithaf eang ac mae ar wasgar dros ardal fawr. Mae hyn yn gwneud y dasg o farcio'r dreftadaeth ar lawr gwlad yn anos, ond ceir canllawiau clir yng nghynlluniau llennyrch y safle ynghyd â'r arferion gorau y dylai'r contractwyr cwmpo eu dilyn. Hefyd, byddwn yn sôn am y dreftadaeth a'r arferion gorau mewn cyfarfod a gynhelir cyn dechrau ar y gwaith, a byddwn yn cerdded ar draws y safle gyda'r contractwyr er mwyn

dangos iddynt y nodweddion a'r ardaloedd na ddylid tarfu arnynt. Gweler [yma](#) ein map nodweddion treftadaeth.

Os ydych o'r farn nad yw'r holl nodweddion wedi'u nodi ar y map hwn, cysylltwch â ni ar SEForest.operations@cyfoethnaturiol.cymru

Pam ydych chi'n gwaredu coed eraill nad ydynt yn goed llarwydd?

O dro i dro, unwaith yr ydym yn gwaredu'r coed llarwydd heintiedig, gall effeithio ar sefydlogrwydd rhywogaethau coed eraill. Ar ôl i'r coed llarwydd gael eu gwaredu, rydym yn ymgymryd ag archwiliadau diogelwch o'r coed sy'n weddill, ac weithiau mae hyn yn nodi coed sy'n ansefydlog ac mewn perygl o gwmpo.

Er ein bod bob amser yn ceisio cadw cymaint o'r coed eraill ag y gallwn, fel coed llydanddail brodorol, weithiau mae'n rhaid inni waredu coed eraill gan eu bod yn peri risg i iechyd a diogelwch.

Rheoli ein Coetiroedd yn y Dyfodol

A yw'n bosib y bydd clefyd y llarwydd yn lledaenu ymhellach ar ôl i chi dorri'r coed? Sut byddwch chi'n gwybod a yw wedi mynd?

Yn anffodus, mae *Phytophthora ramorum* yma i aros. Gwneir y gwaith cwmpo coed er mwyn arafu lledaeniad y clefyd yn lle ei atal yn gyfan gwbl. Bydd lleihau lefelau sborau yn yr amgylchedd hefyd yn lleihau gallu'r afiechyd i newid a dod yn fwy niweidiol wrth ymosod ar rywogaethau eraill, a fyddai'n drychinebus i'r amgylchedd naturiol.

Mae Cyfoeth Naturiol Cymru yn monitro lledaeniad ac yn adrodd yn genedlaethol gyda'i sefydliadau cyfatebol cysylltiedig eraill yn y DU.

A fydd cael gwared â 100 hectar o goed yn effeithio ar ansawdd yr aer yn yr ardal?

Mae'r coed a gaiff eu cwmpo wedi marw neu ar fin marw oherwydd clefyd y llarwydd. Pe baent yn cael eu gadael, ni fyddent yn cael unrhyw effaith ar ansawdd yr aer gan eu bod wedi marw. Trwy gwmpo'r coed a phlannu rhywogaethau mwy amrywiol, bydd yr effaith a gaiff y coed ar ansawdd yr aer yn cynyddu. Wrth i goed dyfu, mewn gwirionedd maent yn dal ac yn storio mwy o CO₂ na choed aeddfed. Felly, bydd cwmpo coed sydd wedi marw/ar fin marw, ac ailblannu coed newydd, yn cynyddu'r manteision o ran ansawdd yr aer.

Pam ydych yn gadael boncyffion a thocion yn gorwedd ar y ddaear? Mae'r coetir yn edrych yn flêr ar ôl i waith cwmpo coed gael ei gynnal.

Mae gwaredu'r canghennau ochr a phennau'r coed yn rhan o'r broses gynaeafu. Maent yn cael eu gadael ar y safle er mwyn i beiriannau yrru arnynt, gan sicrhau cyn lleied o ddifrod i'r tir â phosibl. Mae'r canghennau ochr a phennau'r coed sy'n weddill hefyd yn helpu i ailgylchu maethynnau ar y safle, gan sicrhau ffrwythlondeb y pridd.

Gadewir coed sy'n sefyll am nifer o resymau. Gallant fod yn rhywogaeth wahanol nad yw clefyd y llarwydd yn effeithio arni. Gallant fod yn gartref i rywogaethau anifeiliaid penodol, megis ystlumod. Gall coed sy'n sefyll hefyd fod yn brennau marw, a all fod yn gartref i amrywiaeth o rywogaethau arbenigol na ellir eu gweld mewn prennau byw.

Onid yw'r tocion sydd wedi'u gadael ar y safle yn peri risg tân yn yr ardal?

Ar ôl i'r gwaith coedwigaeth gael ei gwblhau, bydd y safle'n cael ei baratoi ar gyfer ei ailstocio. Wrth wneud hyn, o dro i dro bydd Cyfoeth Naturiol Cymru yn gosod y tocion mewn rhesi – bydd hyn yn helpu i wanhau aildyfiant naturiol rhywogaethau cystadleuol, fel glaswelltau a mieri, gan alluogi'r glasbrennau i dyfu'n gryf yn eu blwyddyn gyntaf.

Mae CNC yn cydnabod y risg tân yn y Cymoedd, a pha bryd bynnag y bo modd mae'n mynd ati i leihau'r risgiau hynny. Bydd pentyrrau tocion a gynhyrchir mewn mannau prosesu ar ffyrdd y goedwig yn cael eu torri'n fân. Pan fydd y tir yn cael ei baratoi, bydd rhenciau (pentyrrau tocion a grëwyd i glirio'r tir) yn cael eu gwthio i'r ddaear i leihau llif yr aer a lleihau tanbeidrwydd unrhyw danau posibl. Wrth gynllunio sut i ailstocio'r safleoedd, byddwn yn mynd ati i ddewis cyfansoddiad y rhywogaethau a lleoliad y rhywogaethau mewn modd a fydd yn lleihau'r risg tân. Bydd plannu coed collddail ar hyd ymylon y coetir yn cynyddu'r lleiniau clustogi sydd heb blanhigion ynddynt wrth ffordd y goedwig, gan greu mwy o strimynnau atal tân.

Mae'r tocion a adewir ar ôl yn bwysig o ran amddiffyn pridd y safle a chynnig maeth i'r ddaear, yn ogystal ag o ran cynorthwyo i baratoi'r ddaear ar gyfer ailstocio.

Cewch fwy o wybodaeth am y manteision sy'n perthyn i docion [yma](#).

Pam ydych chi'n gadael rhai coed sy'n edrych yn farw?

Ein nod yw cadw coed marw sy'n sefyll ac wedi cwmpo mewn unrhyw ardal cwmpo coed. Yn ystod ein harolygon cyn gwerthu, mae'r ardaloedd o'r gwerth uchaf ar gyfer cadw coed marw wedi'u marcio ar fap. Gall yr ardaloedd hyn gynnwys parthau torlannol, ardaloedd â choed marw neu goed llydanddail presennol o amgylch yr ardal cwmpo coed.

Mae gennym bolisi pren marw yr ydym yn ei ddefnyddio fel canllaw i helpu i bennu faint o bren marw y mae angen i ni ei gadw. Yna byddwn yn gadael coed marw â diamedr mawr sydd

wedi cwmpo ac sy'n sefyll mewn ardaloedd sy'n ddiogel ac o werth i'r coetir a'i fioamrywiaeth.

Beth sy'n digwydd i'r holl bren?

Mae ein holl bren yn cael ei werthu mewn modd teg a thryloyw i'r farchnad agored. Rydym yn ymweld â'r safle i'w arolygu ar gyfer gwerthu ac yn cwblhau adroddiad tyfu, sy'n mesur faint o bren sydd ar gael i'w werthu. Unwaith y bydd yr ardal o goetir wedi'i gwerthu i brynwr, y prynwr sy'n gyfrifol am y safle hwnnw. Rydym ni, fel Cyfoeth Naturiol Cymru, yn cynnal cod ymddygiad llym sy'n sicrhau bod y prynwr yn cadw at unrhyw fanylion penodol yn ein contract. Mae ein swyddogion Goruchwylio yn ymweld â'r safle yn rheolaidd yn ystod y contract i sicrhau bod y prynwr a'r contractwyr yn gweithio i'n safonau a thelerau ein contract.

Gellir prosesu a defnyddio llarwydd heintiedig *Phytophthora ramorum* er gwaethaf y clefyd. Bydd y coed yn cael eu cludo i felinau i'w prosesu yn gynhyrchion pren. Mae'r defnydd y gellir ei wneud o'r pren yn dibynnu ar ba mor hir y mae'r afiechyd wedi bod yn bresennol yn y coed. Os oes pydredd sylweddol efallai y bydd yn briodol ar gyfer sglodion neu fiodanwydd yn unig. Mae defnyddiau eraill yn cynnwys cynhyrchion pren ar gyfer deunyddiau adeiladu, paledi a ffensys. Rhaid prosesu pob llarwydden heintiedig mewn melinau trwyddedig.

A fyddwch yn plannu coed newydd?

Byddwn. Ar ôl cwblhau'r gwaith cwmpo, gwneir penderfyniad ynglŷn ag ailstocio'r coetir trwy ddefnyddio eginblanhigion neu trwy aildyfiant naturiol. Mae gan rai coetiroedd ffynhonnell doreithiog o hadau, ac mae'r wybodaeth sydd gennym am y coetir hwn yn dweud wrthym y bydd yn aildyfu ohono'i hun yn eithaf cyflym. Mewn mannau eraill – lle'r ydym wedi gorfod llwyrgwmpo ardaloedd mawr, efallai – byddwn yn anfon timau ar y safle i blannu coed ifanc newydd gan ddefnyddio amrywiaeth eang o rywogaethau. Bydd hyn yn gwella gwytwnwch y coetir ar gyfer y dyfodol.

Bydd y rhywogaethau a ddewisir yn seiliedig ar y [Cynlluniau Adnoddau Coedwigaeth](#) ar gyfer yr ardal. Caiff y cynlluniau hyn eu datblygu ar y cyd â chymunedau lleol. Mae'r Cynllun Adnoddau Coedwigaeth yn adlewyrchu'r polisiâu a'r gweithdrefnau a bennir gan Lywodraeth Cymru a CNC o ran cynaliadwyedd, ail-greu, bioamrywiaeth, diogelwch pren ac adfer coedwigoedd hynafol. Mae CNC yn cydnabod yr effaith a gaiff plâu a chlefydau ar goed a choetiroedd, a'r ffaith fod modd cyflwyno plâu a chlefydau wrth blannu coed, felly dim ond planhigion sydd wedi'u tyfu o hadau yn y DU, neu o doriadau sydd wedi deillio o blanhigion o'r DU, y bydd CNC yn eu prynu.

A allaf blannu coeden yn y coetir?

Mae Cyfoeth Naturiol Cymru yn defnyddio ein [Cynlluniau Adnoddau Coedwigaeth](#) i gynllunio'r gwaith o ailblannu ac ailstocio ardaloedd a gwymmpwyd.

Mae gwaith plannu'n cael ei roi ar gontract i gwmnïau arbenigol sy'n gorfod cadw at bolisiâu a gweithdrefnau iechyd a diogelwch. Yn y rhan fwyaf o achosion, mae coedwigoedd yn cael eu plannu mewn ardaloedd risg uchel sy'n golygu nad yw'n addas yn gyffredinol i aelodau'r cyhoedd blannu ar y safle. Fodd bynnag, rydym yn gweithio'n agos gyda'n cymunedau i'w caniatáu i blannu coed ar y safle, lle bo hynny'n bosibl. Byddwn yn gweithio'n agos gyda chynrychiolwyr o'ch cynghorau lleol a'ch cynghorau cymunedol i sefydlu diwrnodau plannu lle bo hynny'n bosibl.

A yw'r llifogydd yn debygol o effeithio ar y gymuned leol pan fyddwch chi'n tynnu'r coed gerllaw?

Mae Cyfoeth Naturiol Cymru yn mynd i'r afael â gwaith coedwigaeth er mwyn lleihau'r effaith a gaiff dŵr ar yr amgylchedd yn nalgylch y coetir. Mae ein harferion yn dilyn gofynion a chanllawiau Safon Coedwigaeth y DU (UKFS) sy'n seiliedig ar brosiectau ymchwil a'r dystiolaeth wyddonol ddiweddaraf.

Nid yw CNC yn mynd ati i fesur y llif er mwyn gweld faint o ddŵr sy'n llifo oddi ar safleoedd coedwigaeth. Yr hyn y mae CNC yn edrych arno yw arwynebedd y tir lle caiff coed eu cwmpo oddi mewn i ddalgylch, ac yna mae'n cyfrifo canran y gorchudd coed a gollir a'r effaith y gallai hyn ei gael ar ddŵr wyneb ffo. Cynhaliwyd y broses hon ar gyfer pob un o'r coetiroedd gweithredol.

Yn y rhaglen Gweithrediadau Coedwigaeth hon, mae'r rhan fwyaf o'r cyrsiau dŵr yn draenio'n syth i Afon Sirhywi, felly ni ddylai unrhyw beth atal y dŵr rhag llifo oddi ar y safle. Fodd bynnag, mae yna gwlfert ar yr hen reilffordd y gallai'r gwaith effeithio arno, ond nid ymddengys y bydd unrhyw eiddo mewn perygl.

Byddwn yn siarad gyda pherchennog y cwlfer hwn ynglŷn â'i gynnal a'i gadw a'i fonitro tra bydd y gwaith yn cael ei wneud. Er y bydd modd inni, o bosibl, reoli'r cwlfertau a'r draenio oddi ar y safle yn ystod y gwaith, rhaid inni gadw mewn cof na allwn liniaru'r holl law a gawn ar hyn o bryd yn ystod stormydd.

Yn ddiweddar, mae Cyfoeth Naturiol Cymru wedi llunio adroddiad yn sôn am effeithiau diweddar glaw mawr yn 2020. Gallwch ddarllen mwy am ein canfyddiadau yn yr [adroddiad](#) hwn.

Beth fydd yn digwydd i'r Hawliau Tramwy Cyhoeddus a'r llwybrau troed eraill ar y safle?

Er diogelwch y cyhoedd, bydd yn rhaid cau'r Hawliau Tramwy Cyhoeddus dros dro tra bydd y gwaith cwmpo'n cael ei wneud. Oherwydd maint y safle, ein gobaith yw na fydd yn rhaid cau'r holl lwybrau ar yr un pryd ac y bydd modd rhoi rhaglen 'agor a chau' dreigl ar waith. Ar ôl i'r gwaith cwmpo gael ei gwblhau, bydd yr holl Hawliau Tramwy Cyhoeddus yn cael eu hadfer.

Mae nifer o lwybrau 'anfwriadol' i'w cael yn y coetir. Ar ôl cwmpo'r coed pan fydd y dirwedd yn wahanol iawn yr olwg, byddwn yn anelu at weithio gyda'r gymuned i ad-drefnu'r rhain a datblygu rhwydwaith llwybrau troed lleol.

Yn ystod y gwaith coedwigaeth, gofynnwn i'r defnyddwyr a'r cymunedau lleol ddilyn yr arwyddion a osodir ar hyd yr holl fannau trothwy.

Pam mae'n bwysig i ymwelwyr gadw at y llwybrau a glanhau eu hesgidiau?

Lledaenir clefyd y llarwydd gan sborau a gludir gan ddŵr. Mae hyn yn golygu y gall mwd ar eich esgidiau a'ch dillad ledaenu'r clefyd. [Rydym yn eich annog i olchi'ch esgidiau a'ch dillad ar ôl ymweld ag unrhyw goetir.](#)

Sut alla i ddarganfod mwy?

Oes gennych chi ymholiad na chafodd ei ateb uchod? Cysylltwch â ni ar SE.Forestoperations@cyfoethnaturiol.cymru a byddem yn hapus i drafod unrhyw ymholiadau pellach gyda chi.